## Atodiad 1: Pobl Conwy

Ar Ddiwrnod Cyfrifiad 2021, amcangyfrifwyd bod maint poblogaeth breswyl arferol Conwy yn 114,741, gostyngiad o -487 (-0.4%) ers 2011. Cynyddodd cyfanswm poblogaeth Cymru o 1.4% er y bu cynnydd o 6.3% yng Nghymru a Lloegr.

O ran ethnigrwydd, mae poblogaeth Cymru wedi tyfu'n fwyfwy amrywiol ers 2011, gyda'r preswylwyr arferol yng Nghymru wedi'u nodi fel a ganlyn:

| Grŵp Ethnig | Canran o'r Boblogaeth (2011) | Canran o'r Boblogaeth (2021) | Newid yn y Canran |
|---|---|---|---|
| Gwyn | 95.6 | 93.8 | -1.8 |
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 2.3 | 2.9 | +0.6 |
| Cymysg neu Grwpiau ethnig lluosog | 1.0 | 1.6 | +0.6 |
| Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 0.6 | 0.9 | +0.3 |
| Grŵp ethnig arall | 0.5 | 0.9 | +0.4 |

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos y newidiadau canlynol o safbwynt ethnigrwydd ym mhoblogaeth Sir Conwy, a'r ffigwr mewn cromfachau'n cyfeirio at y newid ers data Cyfrifiad 2011:

- 94.1% Gwyn Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gogledd Iwerddon neu Brydeinig (gostyngiad o 1.3%)
- 2.8% Gwyn Gwyddelig, Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig, Roma neu Wyn Arall (cynnydd o 0.5%)
- 1.4% Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig (cynnydd o 0.3%)
- 0.2% Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd (dim newid)
- 1.1% Cymysg neu Grwpiau ethnig lluosog (cynnydd o 0.3%)
- 0.3% Grŵp ethnig arall (dim newid)

Dyma oedd ethnigrwydd disgyblion mewn ysgolion yng Nghonwy yn 2022, yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf:

- 92.1% Gwyn Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gogledd Iwerddon neu Brydeinig
- 2.5% Gwyn Gwyddelig, Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig, Roma neu Wyn Arall
- 1.2% Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig
- 0.2% Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd
- 2.7% Cymysg neu Grwpiau ethnig lluosog
- 0.5% Grŵp ethnig arall
- 0.8% Anhysbys

The Census 2021 data showed that 48.4% of Conwy’s population is male and 51.6% female. This is an increase of 0.3% in terms of the female population in comparison to the 2011 Census data.

O ran oedran, bu cynnydd yn y gyfran o bobl 65 oed a hŷn sydd yn y sir, wrth gymharu data Cyfrifiad 2011 a 2021:

| **Oedran** | **Canran o’r Boblogaeth (2011)** | **Canran o’r Boblogaeth (2021)** | **Canran y Newid** |
|---|---|---|---|
| 15 oed ac iau | 16.6 | 16.0 | -0.6 |
| 16–64 oed | 59.0 | 56.6 | -2.4 |
| 65 oed a hŷn | 24.4 | 27.3 | +2.9 |

Yn 2021, yr oed cyfartalog (y canolrif) yng Nghonwy oedd 49. Mae hyn yn uwch na’r oed canolrifol yn 2011, sef 42 oed. Yr awdurdodau lleol yng Nghymru oedd â’r oedran cyfartalog (canolrifol) uchaf oedd Powys (50 oed), Conwy a Sir Fynwy (eu dau’n 49 oed). Canolrif yr oed yng Nghymru yn 2021 oedd 42 oed, a 40 oed yng Nghymru a Lloegr wedi’u cyfuno.

Roedd Cyfrifiad 2021 yn darparu’r ffigurau diweddaraf am anableddau yn unol â diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb o anabledd (pobl oedd yn cyfrif bod eu gweithgareddau beunyddiol wedi’u cyfyngu gan gyflyrau corfforol neu feddyliol hirdymor). Mae’r data wedi’i safoni yn ôl oedran i gyfrif am wahaniaethau ym maint y boblogaeth a strwythur oedran. Yng Nghymru yn 2021, roedd cyfran lai a nifer llai o bobl yn anabl (21.1%, 670,000) o gymharu â 2011 (23.4%, 696,000).

Yn Sir Conwy, dyma oedd y dadansoddiad o bobl oedd â phroblem iechyd hirdymor neu anabledd, yn cynnwys cyflyrau neu salwch yn gysylltiedig â henaint, yn 2021:

| Anabledd (wedi'i safoni yn ôl oedran) | Poblogaeth Conwy (%) |
|---|---|
| Anabl yn ôl diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb: cyfyngiad mawr ar weithgareddau beunyddiol | 9.2 |
| Anabl yn ôl diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb: rhywfaint o gyfyngiad ar weithgareddau beunyddiol | 11.3 |
| Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb | 79.5 |

Roedd tua 10% o boblogaeth Sir Conwy'n darparu o leiaf rywfaint o ofal di-dâl yr wythnos yn ôl Cyfrifiad 2021 (o gymharu â 12% yng Nghyfrifiad 2011). Dyma oedd y dadansoddiad, yn ôl oriau o ofal di-dâl a ddarperid yr wythnos:

| Oriau o ofal di-dâl a ddarperid yr wythnos | Poblogaeth Conwy (%) |
|---|---|
| Heb ddarparu unrhyw ofal di-dâl | 89.8 |
| Darparu 19 awr neu lai o ofal di-dâl yr wythnos | 4.6 |
| Darparu 20 i 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos | 2.1 |
| Darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos | 3.5 |


Ganed 950 o fabanod i breswylwyr Conwy yn 2020.

Daw'r data mwyaf cywir am gysylltiadau crefyddol o Gyfrifiad 2021. Yng Nghonwy, mae pobl yn cyfrif eu hunain neu'n cysylltu eu hunain â'r crefyddau canlynol: 51% Cristnogaeth (gostyngiad o 14% ers 2011), 41% dim crefydd (cynnydd o 15%), 0.7% Islam (cynnydd o 0.2%), 0.3% Bwdhaeth (dim newid), 0.2% Hindŵaeth (dim newid), 0.1% Iddewiaeth (dim newid) a 0.5% crefydd arall (cynnydd o 0.1%). Ni atebodd 6.4% o bobl y cwestiwn ar grefydd yn 2021, o gymharu â 7.8% yn 2011.

Disgwyliad oes merched (ar eu genedigaeth) yn 2020 oedd 83.1, o gymharu â dynion yn 78.4 oed (gwahaniaeth o 4.7 mlynedd). Mae disgwyliad oes rhywun sy'n 65 oed yn 19.0 mlynedd arall i ddynion a 21.8 mlynedd i ferched (gwahaniaeth o 2.8 blynedd).

Gostyngodd canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy o 27.4% yn 2011 i 25.9% yn 2021 gan olygu yn 2021 roedd oddeutu 1,600 yn llai o breswylwyr yn siarad Cymraeg yng Nghonwy (dros dair oed) o gymharu â 2011. Cynyddodd nifer y bobl nad oeddent yn siarad Cymraeg o 1,700.

O ran y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru, roedd Cyfrifiad 2021 yn dangos gostyngiad o tua 23,700 (1.2%) o breswylwyr arferol yng Nghymru oedd yn dair oed neu'n hŷn oedd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg a dyma'r trydydd isaf a gofnodwyd mewn cyfrifiad:




(Cyfrifiad 2021)

Roedd Cyfrifiad 2021 yn cynnwys cwestiynau ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd am y tro cyntaf. Cwestiynau dewisol oeddent, ac ond i bobl 16 oed a hŷn yr oeddent yn cael eu gofyn. Yng Nghymru, roedd 3% o bobl 16 oed a hŷn yn cyfrif eu hunain i fod â chyfeiriadedd LHD+ (o gymharu â 2.5% yng Nghonwy), a 0.41% o bobl 16 oed a hŷn yn dweud bod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'w rhyw ar adeg eu geni (o gymharu â 0.27% yng Nghonwy), ac mae dadansoddiad isod ar gyfer Conwy a Chymru:

**Cyfeiriadedd Rhywiol y Boblogaeth fel canran, o Gyfrifiad 2021**

| | Conwy (%) | Cymru (%) |
|---|---|---|
| Strêt neu heterorywiol | 89.2 | 89.4 |
| Hoyw neu lesbiaidd | 1.4 | 1.5 |
| Deurywiol | 0.9 | 1.2 |
| Cyfeiriadedd rhywiol arall | 0.2 | 0.3 |
| Heb ateb | 8.3 | 7.6 |

**Hunaniaeth Rhywedd y Boblogaeth fel canran, o Gyfrifiad 2021**

| | Conwy (%) | Cymru (%) |
|---|---|---|
| Hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r rhyw a gofrestrwyd ar yr enedigaeth | 92.93 | 93.28 |

**Hunaniaeth Rhywedd y Boblogaeth fel canran, o Gyfrifiad 2021**

| | | |
|---|---|---|
| Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd ar yr enedigaeth ond heb nodi unrhyw hunaniaeth benodol | 0.10 | 0.16 |
| Merch draws | 0.04 | 0.07 |
| Dyn traws | 0.06 | 0.08 |
| Anneuaidd | 0.04 | 0.06 |
| Pob hunaniaeth rhywedd arall | 0.03 | 0.04 |
| Heb ateb | 6.81 | 6.32 |

Mae trosolwg o sut mae bywyd wedi newid yng Nghonwy rhwng 2011 a 2021 ar gael yma: Sut mae bywyd wedi newid yng Nghonwy: Cyfrifiad 2021.